**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 22 TACHWEDD 2016 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon) a Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 09:34
**Amser Gorffen:** 12:20

**Ymddiheuriadau:** Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes)

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Datganodd Julie May fod aelodau o'i theulu yn Gynghorwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot. Cytunwyd nad oedd hwn yn fuddiant perthnasol mewn perthynas â'r arolwg o'r ffin tua'r môr rhwng Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe y byddai'r Comisiwn yn ei thrafod nes ymlaen yn y cyfarfod. Byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu mewn perthynas ag ystyriaethau pellach gan y Comisiwn.

1.2. Mae David Powell wedi datgan fod ei fab wedi gweithio i un o'r Ymgynghorwyr sy'n gysylltiedig â morlyn llanw Bae Abertawe. Cytunwyd nad oedd hwn yn fuddiant perthnasol mewn perthynas â'r arolwg o'r ffin tua'r môr rhwng Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe y bydd y Comisiwn yn ei thrafod nes ymlaen yn y cyfarfod. Byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu mewn perthynas ag ystyriaethau pellach gan y Comisiwn.

**2. Briff gan y Cadeirydd**

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd friff byr i'r Comisiwn ynglŷn â chynhadledd CLILC a fynychodd wythnos ddiwethaf, yn ogystal â sylwadau a wnaed yn anerchiad Ysgrifennydd y Cabinet a allai effeithio ar y Comisiwn yn y dyfodol agos.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2016**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2016 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newid.

**4. Materion yn Codi**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Tachwedd 2016 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 1) Arolygon Etholiadol – Amserlen, Polisi ac Arfer a Model Maint

Cynghorau – Cyfarfu'r Ysgrifenyddiaeth â CLILC i drafod y Polisi ac Arfer a chyhoeddwyd y Polisi ac Arfer ar 15 Tachwedd.

- (Mater 3) Cyfathrebu â Rhanddeiliaid Arolygon Etholiadol – bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda rhanddeiliaid amrywiol i drafod ein dogfen Polisi ac Arfer a gyhoeddwyd yn ddiweddar. **Prif Weithredwr**
- (Mater 5) Staffio - recriwtio Swyddog Cymorth Busnes - mae'r hysbyseb ar gyfer y swydd wedi'i creu a nodir y dyddiad cau ar 3 Ionawr **Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cymorth Busnes**
- (Mater 8) Telerau ac amodau staff – mae Is-bwyllgor y Gweithlu yn cyfarfod nes ymlaen y prynhawn yma i drafod materion yn codi. **Prif Weithredwr**
- (Mater 13) Strategaeth TG – Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru i ddatblygu astudiaeth ddichonoldeb i'w darparu i'r Comisiwn ar ddyddiad yn ddiweddarach. **Dirprwy Brif Weithredwr**

## 5. Cynllun Corfforaethol Diwygiedig

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Tachwedd 2016 gan y Prif Weithredwr.

5.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad a **Chytunodd** y Cynllun Corfforaethol Diwygiedig, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau. Bydd hwn yn cael ei ddarparu i Is-adran Noddi'r Comisiwn yn awr cyn ei gyhoeddi.

## 6. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Tachwedd 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. **Cytunodd** y Comisiwn i ychwanegu risg newydd sy'n dod i'r amlwg, CR14, at y gofrestr risgiau i gwmpasu'r risgiau'n ymwneud â'r arolwg o ffiniau tua'r môr. Mae'r Ysgrifenyddiaeth i ddrafftio risg newydd yn dilyn cyfarfod gyda datblygwyr y morlyn llawn a pharatoi drafft ar gyfer cyfarfod nesaf y Comisiwn. **Rheolwr Cyllid**

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Tachwedd 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Nodwyd y sefyllfa bresennol gan y Comisiwn a'r amcangyfrif o danwariant am y flwyddyn ar gyfer CFfDLC a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Cytunwyd y byddai ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i danwariant y CFfDLC yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr, gan ystyried bod camau cynnar y rhaglen arolygon etholiadol yn digwydd yn y flwyddyn ariannol hon, gyda'r bwriad o ildio cyllid yn ôl i Lywodraeth Cymru.

7.3. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid cyflwyno amcangyfrif o wariant 2017-18 i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr er mwyn hysbysu Llywodraeth Cymru yn Ionawr 2017 ynglŷn â gofynion cyllido'r Comisiwn ar gyfer 2017-18. **Cytunwyd** y byddai amcangyfrif o wariant 2017-18 yn cael ei roi gerbron yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

7.4. **Nodwyd** a **Chytunwyd** yr adroddiad.

**8. Prawf Cynllun Parhad Busnes 2016-17**

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Tachwedd 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynllun parhad busnes a'r camau a gymerwyd gan staff sy'n cymryd rhan yn y senario prawf.

8.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a bydd yn disgwyl am y prawf nesaf sydd i'w gynnal ym mis Mai 2017.

**9. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Tachwedd 2016 gan y Prif Weithredwr ynglŷn â chynnydd presennol adroddiadau.

9.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiynwyr.

**10. Cyfarfod Rhwng-comisiynau**

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Tachwedd 2016 gan y Prif Weithredwr ynglŷn â'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod Rhwng-comisiynau yn Belfast.

10.2. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau ar gyfer y digwyddiad hwn a oedd ar ddod, a **Nododd** fod y digwyddiad canlynol i'w gynnal yng Nghaerdydd.

10.3. **Cytunodd** y Comisiwn, mewn egwyddor, y byddai Comisiynau'r DU yn cael eu gwahodd i fynychu'r Gynhadledd yng Nghaerdydd yn 2017, ac i ofyn i'r Prif Weithredwr ymgynghori â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru a CFfDLC gyda'r bwriad o gytuno pa sefydliad ddylai gael y cyfrifoldeb hwn.

**11. Ffiniau Tua'r Môr**

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Tachwedd 2016 gan y Prif Weithredwr ynglŷn â datblygiadau pellach mewn perthynas ag arolygon o Ffiniau Tua'r Môr.

11.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a thrafododd y prosesau a goblygiadau'r cais hwn am waith adolygu ar amserlen y Comisiwn ar gyfer Arolygon etholiadol.

11.3. **Cytunodd y** Comisiwn i drafod amserau a gweithdrefnau'r arolwg hwn gyda chynrychiolwyr sefydliad datblygu Morlyn Llanw: Bae Abertawe, a pharatoi i gydweithio a rhannu gwybodaeth berthnasol.

**12. Calendr Digwyddiadau**

12.1. **Nodwyd** y Calendr Digwyddiadau**.**

**13. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall**

13.1. Trafododd y Comisiwn y cyfarfod sydd i'w gynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet, a **Chytunodd** Agenda drafft ar gyfer y cyfarfod, ac i'w anfon i'w Swyddfa Breifat.

13.2. Hysbysodd y Prif Weithredwr y Comisiwn o waith parhaus y Comisiwn Ffiniau i Gymru a'r Bil Aelodau Preifat sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd a allai, o'i basio, effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i ysgrifenyddiaeth CFfDLC yn ystod yr amserlen Arolygon Etholiadol bresennol. **Nodwyd** hyn gan y Comisiwn.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 20 Rhagfyr 2016**